Eisteddfod Gadeiriol Crymych 27/2/27

53. CYSTADLEUAETH Y GADAIR: Cerdd gaeth neu rydd heb fod dros 60 llinell ar y testun "Gwaddol". Gwobr: Cadair fechan a £50. Y gadair yn rhoddedig gan GYNGOR CYMUNED CLYDAU.

54. Englyn: "Man gwyn man draw" 1af £15

55. Telyneg: "Gardd" 1af £15

56. Limrig: "Rwyf yma o hyd wedi'r cyfan'". 1af £10

57. Brawddeg: C - N - E - I - F - A. 1af £10

58. Pedwar Triban neu bedwar Pennill Telyn ar y testun "Eisteddfodau": 1af £15

59. Soned: "Crwydro". 1af £15

60. Geiriau Emyn ar y thema "Canllaw i'n bobl ifanc". 1af £15

61. Erthygl i *Clebran* (Papur Bro'r Preseli) ar unrhyw agwedd o hanes lleol Sir Benfro heb fod dros 750 o eiriau. 1af £25. Cyhoeddir yr erthygl fuddugol yn *Clebran*.

62. Gwerthfawrogiad, heb fod dros 1,000 o eiriau o unrhyw gerdd gan Waldo Williams. Gwobr £30

63. TLWS YR IFANC i rai dan 19 oed: Darn o farddoniaeth neu ryddiaith ar unrhyw ffurf hyd at 2,000 o eiriau. Mewn ymgynghoriad â Chymdeithas Eisteddfodau Cymru bydd dau waith haeddiannol yn ogystal â'r enillydd yn cael eu cynnig i G E C ar gyfer Cystadleuaeth Tlws yr Ifanc i rai dan 25 oed yn yr Eisteddfod Genedlaethol (am fwy o wybodaeth gweler gwefan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru). Gwobr: Tlws Parhaus yn rhoddedig gan Lyn ac Audrey Davies, Brynstop, Hermon, £25 a thlws bychan i'w gadw.

Cystadlaethau y Dysgwyr

64. Erthygl i Bapur Bro. Gwobr: £25 (rhoddedig gan Fenter Iaith Sir Benfro)

65. 1. Lefel Mynediad – "Sgwrs ar y bont".
1af £15, 2il £10, 3ydd £5 (hyd at 100 o eiriau)

2. Lefel Sylfaen – "Mynd am dro". 1af £15, 2il £10, 3ydd £5 (hyd at 150 o eiriau)

3. Lefel Canolradd / Uwch – "Llythyr cais ar gyfer eich swydd ddelfrydol".
1af £15, 2il £10, 3ydd £5 (hyd at 200 o eiriau)
(rhoddedig gan Dysgu Cymraeg Sir Benfro)

Y cyfansoddiadau i fod yn llaw'r ysgrifennydd Llên: Awen Evans, Rhostwarch, Brynberian, Crymych, Sir Benfro. SA41 3TG erbyn **Chwefror 5ed, 2027.**

Dyddiad cau Cystadlaethau 41-52 (cynradd ac uwchradd) a 63 i fod yn llaw yr ysgrifennydd Llên erbyn **Chwefror 17eg, 2027**

Rhaid rhoi ffugenwau yn unig ar y cyfansoddiadau, a chyda phob cyfansoddiad amgaeër amlen tan sêl yn cynnwys enw, cyfeiriad a rhif ffôn y cystadleuydd a theitl a rhif y gystadleuaeth â ffugenw'r cystadleuydd arni.

Derbynnir cyfansoddiadau drwy ebost at alwyn.evans@btconnect.com mewn atodiad yn unig.

Bydd y cyfansoddiadau llenyddol buddugol yn eiddo i Bwyllgor yr Eisteddfod.

Dychwelir y cyfansoddiadau bythefnos ar ôl yr Eisteddfod ond i'r perchennog wneud cais ac amgau amlen â stamp.